Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2025 i 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

Cynnwys

Beth yw Craffu? 3

Craffu ar Waith 4

Sut mae Craffu'n gweithio yn Sir Ddinbych? 4

Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu 5

Y broses ar gyfer penderfynu ar addasrwydd pwnc i'w graffu 6

Gwaith Craffu yn ystod 2025/26 11

Adolygiad y Grŵp Tasg a Gorffen Craffu i'r Gwasanaeth newydd ar gyfer hel Gwastraff ac Ailgylchu 12

Craffu a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor yn ystod 2025/26 13

Galw penderfyniadau'r Cabinet i mewn 16

Canlyniadau cadarnhaol y broses graffu 18

Pwyllgor Craffu Cymunedau 20

Pwyllgor Craffu Partneriaethau 28

Pwyllgor Craffu Perfformiad 34

Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 40

Ceisiadau Craffu gan Drigolion 43

Sut gall trigolion gymryd rhan yn y broses Graffu? 43

Ffurflen Gais Craffu 47

Beth yw Craffu?

Mae craffu'n rhan allweddol o strwythur gwleidyddol y Cyngor. Mae nifer o benderfyniadau pwysig y Cyngor yn cael eu gwneud gan y Cabinet, sef grŵp o naw Cynghorydd y mae'r Cyngor Sir wedi rhoi ei bwerau iddynt i wneud penderfyniadau am bolisïau a gweithdrefnau ar ei ran.

Daw'r term 'scrutiny' yn Saesneg o'r gair Lladin 'scrutinium / scrutari' sy'n golygu 'chwilio'. Yng nghyd-destun Llywodraeth Leol, rôl y Pwyllgorau Craffu yw archwilio ac ymchwilio i bolisïau a phenderfyniadau, er mwyn asesu a ellid eu gwella neu eu cryfhau i ddarparu gwell gwasanaethau i drigolion ac ymwelwyr â Sir Ddinbych. Cyfeirir at y Pwyllgorau Craffu yn aml fel 'cyfaill beirniadol' y Cyngor, a'u pwrpas yw darparu beirniadaeth adeiladol er mwyn mynd ati'n barhaus i geisio gwella gwasanaethau, sicrhau gwell penderfyniadau a gwireddu gwell canlyniadau. Dyma'r egwyddorion sy'n sail i'r broses Graffu:

Atebolrwydd: dwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau

Tryloywder: sicrhau bod gwybodaeth am benderfyniadau a gwasanaethau ar gael yn gyhoeddus

Cyfranogiad: gadael i fudd-ddeiliaid gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau

Her adeiladol: herio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gadarn heb fod yn ymosodol

Cynnwys y cyhoedd: drwy gyfarfodydd, ymgynghoriadau ac adborth

Prosesau craffu annibynnol: sicrhau bod prosesau craffu'n cael eu cynnal gan Gynghorwyr sydd â meddylfryd annibynnol

Gwelliant: defnyddio prosesau craffu i sbarduno gwelliant yn y gwasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol

Ni all Pwyllgorau Craffu wneud penderfyniadau, ond gallant ddylanwadu ar bolisïau, adolygu penderfyniadau a wneir gan y Cabinet a Swyddogion, gwneud argymhellion, ac archwilio amrywiaeth o bynciau sy'n effeithio ar drigolion, busnesau lleol ac ymwelwyr â'r sir.

Craffu ar Waith

Dylai craffu weithio mewn ffordd ddiduedd bob amser. Ni ddylai gwleidyddiaeth plaid ddylanwadu arno, a dylai ganolbwyntio ar wella bywydau trigolion a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer ardal y sir.

Mae gan Bwyllgorau Craffu rôl weithredol i'w chwarae mewn datblygu polisïau ac adolygu perfformiad. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i ddwyn y Cabinet ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif am y penderfyniadau y maent yn eu gwneud.

Os yw Pwyllgor Craffu o'r farn y dylid edrych yn fanylach ar fater cyn rhoi penderfyniad ar waith, gall ofyn i'r mater gael ei adolygu dan y weithdrefn "Galw i Mewn" a fydd yn galluogi Pwyllgorau Craffu i lunio cynigion amgen.

Sut mae Craffu'n gweithio yn Sir Ddinbych?

Mae'r Pwyllgorau Craffu'n gweithio fel 'cyfaill beirniadol' i arweinyddiaeth y Cyngor, yn sbarduno gwelliannau nid yn unig i'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor ei hun, ond hefyd i wasanaethau a ddarperir mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus eraill yn yr ardal, a hynny drwy roi llais i bryderon y cyhoedd.

Cyflawnir gwaith craffu'r Cyngor gan dri Phwyllgor Craffu thematig trawsbynciol sy'n cwrdd unwaith bob tua 7 wythnos, ac mae'r rhain yn cynnwys 11 Aelod Etholedig o bob un o'r pleidiau / grwpiau gwleidyddol sydd ar y Cyngor.

Y tri Phwyllgor yn Sir Ddinbych yw:

- Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Pwyllgor Craffu Partneriaethau
- Pwyllgor Craffu Perfformiad

Wrth astudio materion addysg, mae cynrychiolwyr a benodir gan yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig, ynghyd â chynrychiolwyr a etholwyd gan riant-lywodraethwyr, hefyd yn gwasanaethu ar y Pwyllgorau. Mae gan y cynrychiolwyr hyn hawliau pleidleisio llawn wrth drafod materion sy'n ymwneud ag addysg. Ar hyn o bryd, mae'r tair swydd sy'n cynrychioli rhiant-lywodraethwyr ar y Pwyllgorau Craffu yn wag. Os ydych chi'n rhiant-lywodraethwr yn un o ysgolion cynradd, uwchradd neu arbennig y Cyngor ac mae gennych chi ddiddordeb mewn cynrychioli'r sector ar Bwyllgor Craffu, neu os ydych chi'n adnabod rhywun a fyddai'n addas, cysylltwch â ni (mae'r manylion i'w gweld yn yr adran 'Sut y gall trigolion gymryd rhan yn y broses Graffu' tua diwedd yr adroddiad hwn). Fe fyddem ni wir yn hoffi clywed gennych chi.

Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu

Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y tri Phwyllgor Craffu yn gwasanaethu ar Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu'r Cyngor, ynghyd â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r Grŵp hwn yn cydlynu gwaith y Pwyllgorau Craffu. Mae ceisiadau i Bwyllgor Craffu ystyried eitemau, boed hynny gan Gynghorwyr Sir, swyddogion y Cyngor, trigolion, busnesau, sefydliadau / gwasanaethau cyhoeddus eraill neu'r cyhoedd, yn cael eu harchwilio gan y Grŵp hwn i bennu a ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y broses Graffu, neu a fyddai'n well iddynt gael eu hystyried gan fforwm neu grŵp arall. Mae'r eglurhad ar y dudalen nesaf yn dangos y meini prawf a'r broses ar gyfer penderfynu a yw pwnc yn un addas i'w graffu ai peidio.

Y broses ar gyfer penderfynu ar addasrwydd pwnc i'w graffu

Cam un: ystyried y cais

Derbyn ffurflen gynnig neu gais ac ystyried yn ofalus y rhesymau dros y cais.

Cam dau: a yw'r mater dan sylw yn bodloni'r meini prawf isod?

- Lles y cyhoedd: a yw'r mater yn destun pryder i drigolion?
- Y gallu i gael effaith: a all y broses Graffu ddylanwadu ar bethau a'u newid?
- Perfformiad: a yw hwn yn faes neu wasanaeth sy'n tangyflawni?
- Graddau: a yw'n effeithio ar nifer fawr o drigolion neu ardal ddaearyddol fawr?
- Dyblygu: a oes unrhyw un arall yn edrych arno?

Os nad yw'n bodloni'r meini prawf hyn, ni fydd angen i Bwyllgor Craffu gymryd unrhyw gamau pellach a bydd y cais yn cael ei atgyfeirio i rywle arall, neu gofynnir am wybodaeth ac fe'i rhennir gyda'r unigolyn neu'r sefydliad a gyflwynodd y cais.

Os yw'n bodloni'r meini prawf hyn:

Cam tri: asesu a chynllunio (y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu fydd yn gwneud hyn)

- Pennu pa ganlyniadau a ddymunir
- Pennu cwmpas a graddau'r gwaith craffu sydd ei angen a'r dull mwyaf priodol o'i gyflawni (h.y. adroddiad pwyllgor, ymchwiliad grŵp tasg a gorffen ac ati)
- Os dewisir defnyddio grŵp tasg a gorffen, pennu'r amserlen ar gyfer unrhyw ymchwiliad, pwy fydd yn rhan ohono, gofynion ymchwilio, cyngor arbenigol a'r tystion fydd eu hangen, trefniadau adrodd ac ati.

Yn ystod 2025/26, bu i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ystyried cyfanswm o 22 o geisiadau i graffu ar eitemau. O'r 22 cais hwn cafodd:

- 7 eu cyflwyno gan Gynghorwyr Sir
- 6 gan swyddogion
- 3 gan unigolion neu sefydliadau allanol i'r Cyngor
- 6 gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ran y Pwyllgor.

Mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn sicrhau bod rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu yn gytbwys ac nad yw'r pynciau'n cael eu dyblygu. Er mwyn hwyluso hyn, mae'n ystyried rhaglenni gwaith pob pwyllgor unigol bob tro mae'n cwrdd. Mae hefyd yn chwarae rhan mewn cefnogi a chryfhau swyddogaeth graffu'r Cyngor drwy ganfod arferion gorau, cynnig hyfforddiant neu gyfleoedd datblygu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Craffu, a helpu gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i arferion craffu.

Wrth gyflawni ei rôl yn cefnogi swyddogaeth graffu'r Cyngor i weithredu'n effeithiol yn ystod 2025/26, bu i'r Grŵp drafod y manteision a'r anfanteision o ymestyn yr amserlen ar gyfer adrodd ar gasgliadau ac argymhellion yn deillio o'r adolygiad o benderfyniadau'r Cabinet a alwyd i mewn dan Weithdrefn Galw i Mewn y Cyngor. Yn dilyn ystyriaeth o wahanol opsiynau a chymharu gweithdrefn galw i mewn bresennol y Cyngor gyda rhai'r awdurdodau cyfagos, daeth y Grŵp i'r casgliad fod polisi Sir Ddinbych yn ddigon hyblyg i alluogi Craffu i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r penderfyniadau yr oedd yn cael eu cyfeirio ato, heb achosi unrhyw oedi diangen i'r broses gwneud penderfyniadau.

Hefyd, bu i'r grŵp drafod y broses a oedd yn cael ei dilyn pan yr oedd ceisiadau i ohirio cyflwyno adroddiadau yn cael eu derbyn a daeth i'r casgliad y dylai'r pŵer i ganiatáu cais i ohirio neu aildrefnu adroddiadau ar raglen waith y pwyllgor barhau i fod â Chadeirydd y pwyllgor. Gofynnodd yr Aelodau fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i hysbysu'r unigolion a

oedd wedi cynnig y pwnc ar gyfer craffu ynglŷn â gohiriad yr adroddiad a'r rhesymau dros ei aildrefnu.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Aelodau ar sut y gallent gael mynediad rhwydd at waith a chynnydd yr holl grwpiau tasg a gorffen neu weithgorau a sefydlwyd gan y Cyngor, fe gytunodd y Grŵp ar Fframwaith ar gyfer Grwpiau Tasg a Gorffen. Argymhellwyd y dylid defnyddio'r Fframwaith hwn yn y dyfodol gan yr holl Grwpiau Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan y Pwyllgorau Craffu ac awgrymwyd bod y Tîm Gweithredol Corfforaethol yn ystyried ei addasrwydd i'w ddefnyddio gan bob gweithgor ar draws y Cyngor.

Fel yr adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, gan fod pob gwasanaeth bellach wedi cael ei gwtogi i'r eithaf, er mwyn lleihau costau cyflenwi gwasanaeth, mae'r Cyngor, gyda'r bwriad o barhau i ddarparu gwasanaethau allweddol i drigolion, wedi dechrau ar raglen i lunio modelau cynaliadwy newydd i ddarparu gwasanaethau. Mae'r rhaglen waith hon, a elwir yn Rhaglen Drawsnewid, yn eang a bydd, i raddau mwy neu lai, yn effeithio ar yr holl wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

Mae tair prif ffrwd waith wedi cael eu nodi o fewn y Rhaglen Drawsnewid ac fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi dyrannu'r cyfrifoldeb dros archwilio'r cynigion sy'n cyd-fynd â phob thema i'r Pwyllgorau canlynol:

- Dylanwadu ar Alw a Digidol – Pwyllgor Craffu Perfformiad
- Masnacheiddio a Menter – Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Cydweithio a Phartneriaeth - Pwyllgor Craffu Partneriaethau

Bydd pob un o'r Pwyllgorau Craffu yn archwilio cynigion am brosiectau trawsnewid busnes wrth iddynt ddatblygu. Er mwyn hwyluso dyrannu prosiectau trawsnewid yn amserol i'r pwyllgorau craffu perthnasol, mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi bod yn derbyn adroddiadau cynnydd chwarterol ar eu datblygiad. Nod y dull hwn yw sicrhau bod prosiectau unigol yn cael eu craffu ar y pwynt lle gall Pwyllgorau Craffu ddylanwadu ac ychwanegu gwerth at eu datblygiad yn fwyaf effeithiol. Yn ystod gweddill cyfnod y

weinyddiaeth hon, bydd y pwyllgorau'n archwilio datblygiad pob prosiect i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau i sicrhau eu bod yn effeithiol wrth ddiwallu anghenion trigolion.

Adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd yr ymgynghorwyd â'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ar y ffordd orau o graffu ar Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar. Mae gan y pwyllgor rhanbarthol hwn ddyletswyddau mewn perthynas â datblygu economaidd, cludiant, a chynllunio. Barn y Grŵp oedd mai sefydlu Cyd-bwyllgor Craffu yn cynnwys pob un o'r cyrff cyhoeddus sy'n cael eu cynrychioli ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o graffu ar agweddau strategol gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig, ond y dylai Pwyllgorau Craffu'r Awdurdod Lleol perthnasol graffu ar unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio ar leoliadau penodol.

Yn ystod 2025/26, cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig y cynnig i sefydlu Cyd-bwyllgor Craffu yn cynnwys holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru i graffu ar ei weithgareddau yn y dyfodol. Gwahoddwyd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu i drafod opsiynau amrywiol ar gyfer darparu cymorth gweinyddol a chraffu i'r cyd-bwyllgor hwn. Er mwyn i graffu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fod yn effeithiol, barn y Grŵp oedd y byddai'n fuddiol i adnoddau cymorth gael eu lleoli o fewn canolbwynt gweinyddol y Cyd-bwyllgor Corfforedig i alluogi mynediad hawdd at y wybodaeth sy'n ofynnol gan y Cyd-bwyllgor Craffu. Gan ein bod yn parhau i aros am benderfyniad terfynol ar y trefniadau hyn, mae pob Cyngor wedi parhau i graffu ar waith y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn unigol a byddant yn gwneud hyn nes bydd y trefniadau terfynol yn cael eu cadarnhau.

Mae Pwyllgorau Craffu bellach wedi bodoli ers bron i chwarter canrif. Er gwaethaf hyn, mae Craffu yn parhau i wynebu heriau sylweddol wrth geisio ymgysylltu â thrigolion ac annog cyfranogiad gweithredol gan y cyhoedd yn ei waith. Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r her hon yn unigryw i Sir Ddinbych, mae llawer o awdurdodau lleol ar draws y wlad yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â'r cyhoedd yn gyson.

Gyda'r nod o archwilio ffyrdd o gynyddu rhyngweithio trigolion â Chraffu, trafododd y Grŵp gyfleoedd posibl ar gyfer gwella ymgysylltu â'r cyhoedd. Oherwydd cyfyngiadau ymarferol a deddfwriaethol, teimlwyd na fyddai cynnal cyfarfodydd pwyllgorau craffu mewn gwahanol

leoliadau cymunedol ledled y sir yn cefnogi craffu effeithiol a manwl. Mae pob cyfarfod yn hybrid, sy'n dileu rhwystrau daearyddol ac yn darparu ar gyfer amserlenni amrywiol. Mae'r dull hwn yn ehangu hygyrchedd i'r holl drigolion gan gynnwys y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu neu anableddau. O ystyried y defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ystyriwyd ei bod yn fwy buddiol i Bwyllgorau Craffu fabwysiadu ymagwedd ragweithiol wrth gyfleu gwybodaeth trwy gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol eraill, fel 'Llais y Sir'. Mae cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu bellach yn cael eu "hysbysebu" ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor fel y bydd trigolion yn gwybod pryd fyddant yn cael eu cynnal. Mae trafodaethau cychwynnol wedi cael eu cynnal gyda Thîm Cyfathrebu'r Cyngor ar sut y gellid datblygu hyn.

Swyddogaeth bwysig arall y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yw goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Craffu'r Cyngor. Mae'n pennu cynnwys a fformat yr adroddiad ac yn argymell ei gyflwyno i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo.

Gwaith Craffu yn ystod 2025/26

Caiff pob un o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu eu cynnal fel ‘cyfarfodydd hybrid’. Mae hyn yn gadael i aelodau’r Pwyllgorau, y swyddogion a’r partneriaid neu’r sefydliadau allanol a wahoddwyd i gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu ddewis mynd i gyfarfod yn y lleoliad a bennwyd, neu ymuno o bell drwy fideo-gynadledda. Mae’r hyblygrwydd hwn yn lleihau’r pwysau ar bobl i deithio rhwng lleoliadau, yn rhyddhau mwy o amser i gyflawni gwaith arall yn ystod y dydd, ac yn helpu lleihau allyriadau carbon y sir drwy leihau teithiau diangen. Gan fod pob un o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu yn cael eu gwe-ddarlledu’n fyw ar wefan y Cyngor bellach, a bod recordiad o’r gwe-ddarllediad ar gael ar y wefan ar ôl pob cyfarfod, gall trigolion naill ai ddilyn trafodaethau’r Pwyllgor yn fyw neu ddal i fyny gyda’r eitemau sydd o ddiddordeb iddynt yn nes ymlaen, pa un bynnag sydd fwyaf cyfleus iddynt.

Yn ystod 2025/26, dechreuodd y Pwyllgorau Craffu o ddifrif ar eu gwaith o archwilio camau cychwynnol y newidiadau i’r dulliau darparu gwasanaethau a roddwyd ar waith er mwyn lliniaru effaith y toriadau i’r gyllideb sy’n wynebu’r Awdurdod a sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus eraill. Bydd y gwaith hwn yn ennill momentwm yn ystod y flwyddyn i ddod. O ganlyniad, rhagwelir y bydd y Pwyllgorau Craffu yn rhan fawr o archwilio trawsnewidiad darpariaeth gwasanaethau’r Cyngor dros y blynyddoedd i ddod.

Er bod gwaith y Pwyllgorau Craffu’n datblygu o un flwyddyn i’r nesaf, nid yw’n dod i ben ar ddiwedd un flwyddyn y Cyngor ac yn ailgychwyn eto ar ddechrau’r flwyddyn nesaf. Dyma pam fod yr un meysydd gwaith, neu rai tebyg, yn codi’n rheolaidd yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu. Mae craffu yn broses barhaus, nid ymarfer untro yn unig. Mae’n cynnig cefnogaeth barhaus i’r Cyngor gyda’r nod o ddarparu gwasanaethau o safon i drigolion, gan addasu i ofynion ac anghenion newidiol.

Adolygiad Craffu i gynllunio a chyflwyno'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd

Bu i'r Grŵp Tasg a Gorffen, a sefydlwyd i adolygu gweithrediad y System Gwastraff ac Ailgylchu newydd, gynnal ei gyfarfod cyntaf ar 4 Mehefin 2025. Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynodd y Grŵp, oherwydd yr holl waith a ragwelwyd, y dylid penodi Cyd-gadeiryddion ar gyfer y grŵp. Penodwyd y Cynghorwyr Karen Edwards ac Andrea Tomlin yn Gyd-gadeiryddion gyda'r Cynghorydd Peter Scott yn Is-gadeirydd. Yn ystod y cyfarfod cyntaf, adolygodd y Grŵp ei Gylch Gorchwyl a chytunodd ar y dystiolaeth yr oedd am ei dadansoddi a phwy yr oeddent eisiau eu gwahodd i bob cyfarfod dilynol i drafod eu profiadau o gynllunio a/neu weithredu cyflwyno'r gwasanaeth newydd.

Dros y 5 cyfarfod nesaf, cyfwelwyd swyddogion o wahanol wasanaethau mewnol - gan gynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Rheoli Prosiectau, Rheoli Fflyd a TGCh. Hefyd, gwahoddwyd partneriaid allanol e.e. WRAP ac Undebau, ynghyd â chyn-weithwyr - gan gynnwys Pennaeth Gwasanaeth, Rheolwr Gwastraff a Rheolwr Gweithrediadau - i fynychu i roi eu safbwynt ar y broses gynllunio a gweithredu.

Oherwydd y cymhlethdodau yn gysylltiedig â chynllunio a gweithredu newid mor fawr i wasanaeth, ynghyd â'r cyfnod o amser rhwng y camau cynllunio cychwynnol a chyflwyno'r gwasanaeth newydd yn y pen draw, mae ymchwiliad y Grŵp Tasg a Gorffen wedi cymryd mwy o amser na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Serch hynny, disgwylir mai sesiwn casglu tystiolaeth nesaf y Grŵp, ym mis Gorffennaf 2026, fydd yr un olaf. Bydd wedyn yn dechrau dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd ac yn dechrau llunio ei adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd o'r prosiect trawsnewid gwasanaeth hwn. Disgwylir y bydd ei ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ddiweddarach yn ystod blwyddyn y Cyngor 2026/27. Bydd y gwersi a ddysgwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn, ynghyd â'i argymhellion cysylltiedig, yn cael eu defnyddio i lywio a chryfhau unrhyw brosiectau trawsnewid gwasanaethau eraill y gall y Cyngor ymgymryd â nhw yn y dyfodol.

Craffu a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor yn ystod 2025/26

Cytunwyd ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor 'Y Sir Ddinbych a Garem' a'i flaenoriaethau ar gyfer 2022 – 2027 ym mis Hydref 2022, ac mae'r Cynllun yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni er budd trigolion a chymunedau lleol dros y pum mlynedd nesaf. Yn wyneb cyfyngiadau ariannol a llai a llai o adnoddau staffio, cymeradwyodd y Cyngor Sir Gynllun Corfforaethol diwygiedig ar gyfer 2002 i 2027 ym mis Chwefror 2024. Mae'r Cynllun diwygiedig yn cynnwys chwe Thema Gorfforaethol bellach, yn hytrach na'r naw gwreiddiol, ac mae'r themâu canlynol…

- Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well
- Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal
- Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

wedi'u hymgorffori yn y blaenoriaethau corfforaethol sy'n weddill. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y Cyngor yn parhau i geisio cyflawni pob un erbyn diwedd ei gyfnod, ond fel rhan o'i waith o ddydd i ddydd yn hytrach na fel amcanion ar eu pennau eu hunain. Ym mis Ionawr 2026, cytunodd y Cyngor i ymestyn cyfnod cyflawni'r Cynllun Corfforaethol presennol hyd at 2028. Mae hyn er mwyn galluogi'r weinyddiaeth newydd, a fydd yn cael ei ffurfio yn dilyn etholiadau awdurdod lleol ym mis Mai 2027, i ddatblygu ei Chynllun Corfforaethol pum mlynedd ei hun a fydd yn weithredol o 2028 hyd at 2033. Nodir y Blaenoriaethau Corfforaethol sydd wedi'u rhestru yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer tymor y Cyngor 2022 - 2028 isod. O dan bob pennawd mae enghreifftiau o'r mathau o gamau gweithredu a fydd yn helpu cyflawni pob blaenoriaeth:

1. **Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sy'n bodloni anghenion pobl**:
    - Sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar dai o safon sy'n bodloni eu hanghenion.
    - Helpu pobl i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.
    - Gweithio i atal digartrefedd.

2. Sir Ddinbych ffyniannus

- Cefnogi twf economaidd.
- Datblygu cynllun i dyfu busnesau Sir Ddinbych yn y dyfodol.
- Darparu cyngor a chefnogaeth i fusnesau dyfu a helpu cymunedau lleol i ffynnu.
- Cynnal rhwydwaith ffyrdd o safon a galluogi pobl i gael mynediad at addysg, cyflogaeth, gwasanaethau, a gweithgareddau.
- Cefnogi cymunedau gyda gwell sgiliau a rhwydweithiau digidol.

3. Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar

- Darparu gofal cymdeithasol o safon uchel.
- Cefnogi pobl o bob oed i fyw'n dda a bod yn ddiogel.
- Helpu pobl i fyw'n annibynnol gan ddarparu cymorth yn ôl yr angen.
- Gweithio i gefnogi lles personol a chymunedol.
- Sicrhau bod pawb yn gallu cael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn naturiol ar bob cam yn eu bywydau.
- Cefnogi defnydd ehangach o'r Gymraeg a dathlu diwylliant Cymru.
- Gweithio ar fynd i'r afael â'r annhegwch a'r tlodi y mae ein cymunedau'n eu hwynebu.

4. Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu

- Cefnogi rhieni a phant ifanc yng nghamau cynnar eu datblygiad.
- Sicrhau bod pawb yn cael cyfleoedd teg i ddysgu.
- Darparu adeiladau a chyfleusterau o safon sy'n cefnogi dysgu a chymunedau llewyrchus.
- Helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd, gwirfoddoli a dod o hyd i swyddi da.

5. Sir Ddinbych wyrddach

- Dod yn sefydliad ecolegol gadarnhaol a di-garbon net erbyn 2030.
- Gofalu am yr amgylchedd naturiol a'i wella.
- Gweithio gyda chymunedau i ymdopi ag effeithiau newid hinsawdd a'u lleihau.

- Gwella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff.
- Cefnogi ein hisadeiledd gwyrdd.

6. Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad

- Sefydlu diwylliant cadarnhaol o uchelgais, tryloywder a gwelliant.
- Datblygu perthynas agos llawn ymddiriedaeth rhwng ein staff, Aelodau Etholedig a'n cymunedau.
- Sicrhau bod y Cyngor yn cael ei reoli'n dda ac yn rhoi gwerth da am arian.
- Sicrhau bod Cyngor Sir Ddinbych yn gyflogwr da ac yn lle gwych i weithio.

Mae'r Cyngor yn ffodus bod ei strwythur Pwyllgorau Craffu thematig yn cynnig digon o hyblygrwydd i alluogi unrhyw un o'r Pwyllgorau i archwilio agweddau amrywiol ar gynnydd yr Awdurdod o ran cyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn monitro cynnydd cyffredinol y Cyngor wrth gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

Mae cynnydd y Cyngor o ran cyflawni themâu unigol, yn ogystal â mentrau neu wasanaethau penodol sy'n cyfrannu mewn rhyw ffordd at gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, yn cael eu craffu a'u monitro'n barhaus drwy gydol oes y Cynllun. Mae amlder y gwaith craffu yn cael ei bennu gan y cynnydd a wnaed i gyflawni'r themâu neu bryderon a godwyd mewn perthynas ag agweddau penodol ar y gallu i'w cyflawni.

Galw penderfyniadau’r Cabinet i mewn

Dim ond dwywaith yn ystod 2025/26 y defnyddiwyd Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor. Mae trosolwg o’r penderfyniadau a alwyd i mewn i’w hadolygu i’w weld isod:

‘Cynnig Arbedion Cyfleusterau Cyhoeddus – Asesiad o Anghenion Lleol a Strategaeth Ddrafft Toiledau Lleol’

Nododd yr asesiad o anghenion lleol y cymunedau hynny lle’r oedd mwy o angen am gyfleusterau cyhoeddus. Felly, penderfynodd y Cabinet fuddsoddi yn yr ardaloedd hynny lle nodwyd angen yn y dyfodol, er mwyn moderneiddio cyfleusterau i weithredu ar sail talu heb arian parod a heb staff, cyn trosglwyddo'r asedau i'r ddinas, tref neu gyngor cymuned perthnasol i weithredu a rheoli.

Mewn cymunedau lle’r oedd cyfleusterau cyhoeddus yn bodoli ar hyn o bryd ond nad oeddent yn bodloni'r trothwy anghenion ar gyfer y dyfodol, cysylltwyd â'r cyngor dinas, tref neu gymuned perthnasol - neu, mewn rhai achosion, sefydliadau eraill - i benderfynu a fyddent yn fodlon cymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am yr ased heb fuddsoddiad ymlaen llaw gan y Cyngor. Os nad oedd y cynghorau neu'r sefydliadau hyn yn fodlon cymryd cyfrifoldeb am reoli'r ased, byddai'r cyfleusterau cyhoeddus yn cael eu cau a'r adeiladau yn cael eu digomisiynu.

Yn naturiol, achosodd hyn bryder ymhlith trigolion ac aelodau fel ei gilydd, gan arwain at weithredu Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor a galw penderfyniad y Cabinet i mewn i'w adolygu. Ymgymerodd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau â'r adolygiad hwnnw ac ar ôl clywed tystiolaeth a dadleuon o blaid ac yn erbyn y penderfyniad, ei gyfeirio'n ôl i'r Cabinet. Argymhellodd y Pwyllgor Craffu y dylai'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad i gau cyfleusterau cyhoeddus presennol a weithredir gan Gyngor Sir Ddinbych. Argymhellodd ymhellach y dylid cadw ac ariannu'r gwasanaethau hyn drwy gynnydd o 0.27% yn sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2026/27.

Rhesymeg y Pwyllgor dros wneud yr argymhelliad hwn oedd y byddai cynnydd o'r fath yn Nhreth y Cyngor yn cynrychioli buddsoddiad teg a chymesur mewn diogelu iechyd, urddas

a hygyrchedd ar gyfer yr holl drigolion ac ymwelwyr ledled y sir. Er bod y Cabinet, ar ôl ailystyried, wedi ailddatgan ei benderfyniad gwreiddiol, cytunodd hefyd ar nifer o welliannau yng ngoleuni argymhellion Craffu. Roedd y rhain yn cynnwys parhau â thrafodaethau ystyrlon gyda sefydliadau cyhoeddus neu drydydd sector perthnasol gyda'r bwriad o gadw'r cyfleusterau cyhoeddus ar agor; ystyried y cynnydd arfaethedig yn sylfaen Treth y Cyngor fel rhan o broses gosod cyllideb 2026/27; a sicrhau na fyddai unrhyw un o'r cyfleusterau cyhoeddus yn cael eu cau neu eu digomisiynu nes bod canlyniadau'r trafodaethau a'r prosesau hyn wedi'u cwblhau.

‘Dyfodol Cefndy’

Galwyd y penderfyniad hwn i mewn i'w adolygu dan Reolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor ar sail ei fod wedi'i wneud heb roi ystyriaeth ddigonol i ddewisiadau amgen rhesymol, megis mentrau cymdeithasol ac ailfodelu busnesau, fel yr oedd y Pwyllgor Craffu wedi eu hargymell wrth graffu ar y cynigion cyn gwneud penderfyniad.

Ar ôl ystyried y penderfyniad, ar y sail y cafodd ei alw i mewn i'w archwilio ymhellach, penderfynodd y Pwyllgor Craffu Perfformiad ei gyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w ailystyried. Argymhellodd y Pwyllgor Craffu y dylai'r Cabinet adolygu ei benderfyniad gwreiddiol ac, wrth wneud hynny, rhoi ystyriaeth i sylwadau'r Pwyllgor Craffu ac ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb fanwl yn cynnwys aelodau etholedig ac eraill sy'n ymwneud â'r gwasanaeth ar hyn o bryd.

O ganlyniad, cytunodd y Cabinet i oedi am chwe mis cyn gwneud penderfyniad ynghylch cau Cefndy er mwyn rhoi amser i'r holl bartïon â diddordeb ddatblygu achos busnes ariannol hyfyw i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r gwasanaeth. Mae gweithgor sy'n cynnwys Aelodau Etholedig, cynrychiolwyr gweithwyr a swyddogion wedi'i sefydlu i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Disgwylir i'r grŵp hwn adrodd ei ganfyddiadau a'i gasgliadau i'r Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn ariannol i ddod.

Canlyniadau cadarnhaol y broses graffu

Un o brif amcanion y broses graffu yw ychwanegu gwerth a sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Ddinbych ac yn ymweld â'r Sir. Mae disgwyl i'r Pwyllgorau Craffu ddangos tystiolaeth o'r buddion y maent wedi'u hychwanegu at y broses o wneud penderfyniadau a sut mae'r buddion hynny'n amlygu eu hunain mewn canlyniadau gwell i drigolion a busnesau'r sir. Ar y cyfan, mae'n anodd dangos tystiolaeth o fuddion o'r fath; fodd bynnag amcan cyffredinol y broses Graffu yw cefnogi gwell penderfyniadau sydd yn eu tro yn darparu gwell gwasanaethau. Felly, gorau po gyntaf y bydd y Pwyllgorau Craffu yn ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau - cyfeirir at hyn fel arfer fel 'craffu cyn gwneud penderfyniad'.

Mae craffu cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw gynigion yn rhoi mwy o amser i aelodau'r Pwyllgor Craffu lunio a dylanwadu ar benderfyniadau, a ddylai arwain at wneud penderfyniadau gwell ar sail tystiolaeth, a fydd yn darparu gwell canlyniadau i bawb yn eu tro. Yn ystod cyfnodau o gyni cyllidol, mae'n arbennig o bwysig cynnwys y Pwyllgorau Craffu cyn gynted ag y bo modd wrth bennu sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei rôl wrth ddarparu gwasanaethau, gan y gall weithredu fel eiriolwr a llais y trigolion wrth lunio modelau darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

Fel y soniwyd uchod, mae'n anodd, ar y cyfan, i nodi enghreifftiau penodol o sut mae y Pwyllgorau Craffu wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar welliannau i ddarpariaeth gwasanaethau. Weithiau, efallai na fydd manteision gwaith y Pwyllgorau Craffu yn dod i'r amlwg am gyfnod estynedig. Yn dilyn tân dinistriol ar Fynydd Llantysilio yn 2018, cychwynnodd Pwyllgor Craffu Cymunedau'r Cyngor adolygiad i'r amgylchiadau a arweiniodd at y tân, ymateb sefydliadau partner amrywiol i'r digwyddiad, ac effaith y tân ar y gymuned leol. Daeth yr adolygiad hwnnw i'r casgliad bod diffyg rheolaeth gadarn o'r tir ar y mynydd wedi cyfrannu at hyd y tân a'i effeithiau dinistriol ar bawb dan sylw.

Un o'r argymhellion a ddeilliodd o'r adolygiad oedd y dylid sefydlu swydd Swyddog Rheoli Rhostir i gefnogi'r gwaith o gydlynu gwaith rhwng gwahanol asiantaethau, tirfeddianwyr, ffermwyr, porwyr, a chymunedau lleol ar weithgareddau a chynlluniau rheoli tir. Teimlwyd y

gallai cael swyddog dynodedig at y diben hwn helpu i gefnogi rheoli cynefinoedd, ecosystemau ac economïau yr ucheldir yn effeithiol er mwyn lleihau'r risg o danau gwyllt. O ganlyniad i waith y grŵp tasg a gorffen, sicrhawyd cyllid mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gyflogi Swyddog Rheoli Rhostir. Felly, roedd yn hynod braf clywed, ym mis Hydref 2025, bod gwaith Gwasanaethau Cefn Gwlad y Cyngor mewn perthynas â'r Prosiect Rheoli Rhostir—a sefydlwyd fel ymateb uniongyrchol i argymhellion yr adolygiad Craffu—wedi cael ei gydnabod pan ddyfarnwyd Gwobr Partner Diogelwch Cymunedol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r Gwasanaeth.

Pwyllgor Craffu Cymunedau





Y Cynghorydd Karen Edwards **(Cadeirydd)** Y Cynghorydd Brian Jones **(Is-gadeirydd)**

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Cymunedau, ei raglenni a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Craffu Cymunedau'n archwilio materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gymunedau lleol a bywydau dyddiol y trigolion. Gall y rhain fod yn faterion o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor neu'n agweddau ar fywyd dyddiol y gall y Cyngor ddylanwadu arnynt.

Roedd yr eitemau y craffwyd arnynt gan y Pwyllgor yn 2025/26 i gyd yn ymwneud ag o leiaf un o'r Blaenoriaethau Corfforaethol sy'n cyfrannu at yr ymrwymiad i gyflawni'r 'Sir Ddinbych a Garem' dan y Cynllun Corfforaethol.

Yn dilyn trawsnewid y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu, o dan y Flaenoriaeth Gorfforaethol 'Sir Ddinbych Wyrddach', roedd y Pwyllgor yn awyddus i adolygu'r **Polisi Refeniw a Phen Lôn y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu**. Roedd y gwasanaeth gwastraff newydd yn galluogi gwahanu deunyddiau i'w hailgylchu yn well ar ochr y palmant, gan ganiatáu i'r Cyngor werthu deunyddiau a chynhyrchu incwm, yn hytrach na thalu am ddadlwytho gwastraff i'w brosesu fel o'r blaen.

Yr incwm a ragwelwyd ar gyfer 2024/25 oedd £1.2 miliwn, yr incwm blynyddol gwirioneddol a gyflawnwyd oedd £800,000 (yn seiliedig ar 10 mis o wasanaeth yn dilyn y ei gyflwyno ym

mis Mehefin 2024). Priodolwyd yr incwm is i faterion cyflwyno cynnar ac amrywioldeb prisiau'r farchnad. Fodd bynnag, roedd disgwyl i incwm wella yn y dyfodol wrth i'r gwasanaeth sefydlogi.

Clywodd y Pwyllgor fod 36 o aelwydydd wedi cael gwybod am newid yn y gwasanaeth, ac oherwydd anawsterau wrth geisio cael mynediad i'w heiddo, y byddai angen iddynt gyflwyno eu gwastraff ar ben y lôn i'w gasglu. Roedd y Polisi Gwastraff yn cael ei adolygu yn dilyn newidiadau i'r gwasanaeth. Cafodd yr Aelodau sicrwydd bod casgliadau â chymorth yn parhau i fod ar gael i'r holl drigolion, gan gynnwys y rhai ar drefniadau pen lôn.

Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch y posibilrwydd o gynnwys ffyrdd mabwysiedig i'w hystyried mewn perthynas â chasgliadau pen lôn. Gofynnodd yr Aelodau am ymgynghoriad cryfach â thrigolion ac aelodau ward ac awgrymwyd archwilio atebion amgen (e.e., cerbydau llai) yn hytrach na chasglu pen lôn lle bo hynny'n bosibl. Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad pellach ar y Polisi Gwastraff ac effaith y diwygiadau arfaethedig cyn gwneud unrhyw newidiadau iddo.

Yn dilyn hynny, cyflwynwyd **Diwygiad Polisi Pen Lôn Gwastraff ac Ailgylchu**. Sbardunwyd yr adolygiad gan heriau gweithredol ac adborth gan Aelodau, trigolion a gweithredwyr gwasanaethau, gyda'r nod o egluro a chrynhoi geiriad y polisi, nid lleihau gwasanaethau. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid ymgynghori ag aelodau ward lleol cyn gweithredu unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r risgiau casglu a nodwyd.

Gan barhau â'r flaenoriaeth 'Sir Ddinbych Wyrddach', cyflwynwyd cynlluniau i'r Pwyllgor i gyflwyno pâr neu deulu o afancod mewn ardal gaeedig 24 erw yng **Ngwarchodfa Natur Green Gates** (cyfanswm o 70 erw) yn Llanelwy. Byddai'r prosiect yn cael ei ariannu drwy Grant Natur gan Lywodraeth Cymru.

Roedd y prosiect yn cefnogi dyletswydd y Cyngor dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn cyd-fynd â'i nod i wella bioamrywiaeth a dod yn gyngor ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Disgrifiwyd afancod fel "peirianwyr ecosystemau" a'u gweithgareddau (adeiladu argaeau, tyllu, chwilota) yn gallu cynyddu bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd newydd.

Nod y prosiect oedd darparu cyfleoedd addysgol, ymweliadau tywysedig, ac ymgysylltu â'r gymuned, gyda buddion lles posibl a groesawyd gan y Pwyllgor.

Y Flaenoriaeth Gorfforaethol a gafodd y ffocws mwyaf gan y Pwyllgor yn 2025/26 oedd Tai o Ansawdd yn Sir Ddinbych sy'n Bodloni Anghenion Pobl, gydag ystod o wasanaethau yn ei chefnogi a phynciau wedi'u trafod.

Roedd yr **adroddiad Ymateb Brys i Golli Gwres (Tenantiaid Diamddiffyn)** yn egluro sut yr oedd Gwasanaethau Tai yn cefnogi tenantiaid diamddiffyn yn ystod achosion o golli gwres, yn enwedig yn ystod toriadau pŵer ar lefel leol, ac roedd yn amlinellu trefniadau ymateb brys ehangach ar gyfer digwyddiadau toriadau mawr.

Roedd staff tai yn cefnogi tenantiaid yn rheolaidd yn ystod argyfyngau (e.e. llifogydd, tân, pandemig). O ran tenantiaid diamddiffyn a gwresogi yn arbennig, gwnaed cyswllt rhagweithiol cyn rhybuddion tywydd garw, ac yn ogystal â gwelliannau i systemau cyswllt y tu allan i oriau, rhannwyd gwybodaeth am denantiaid diamddiffyn gyda darparwyr ynni am gymorth.

Os oedd toriadau pŵer mewn ardal benodol ac yn para am gyfnod estynedig, gallai'r Cyngor agor canolfannau gorffwys i ddarparu cynhesrwydd, bwyd a diod. Awgrymodd y Pwyllgor y gallai Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned ymwneud yn fwy ag ymdrechion adfer.

Roedd dyletswyddau statudol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod nodi safleoedd parhaol addas ar gyfer anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd yn yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (cymeradwywyd ym mis Mai 2024).

Cyflwynwyd casgliadau **Asesiad Safle Sipsiwn a Theithwyr** Grŵp Tasg a Gorffen i'r Pwyllgor gan gynghori bod safleoedd wedi'u hasesu yn defnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru a bod un safle wedi'i nodi fel y dewis mwyaf addas.

Cododd y Pwyllgor bryderon ynglŷn â'r broses o ddewis safleoedd, yn enwedig y dystiolaeth a'r dadansoddiad a ddefnyddiwyd. Holodd yr Aelodau lleol ynghylch cyfyngu'r ardal chwilio i un dref, 'cysylltiad sefydledig' y teulu, ac yna unrhyw safleoedd posibl eraill yn cael eu

hanwybyddu. Ar ben hynny, roedd y safle a oedd yn cael ei ffafrio yn gwrthdaro â chynlluniau dyrannu tai presennol.

Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor yn manylu ar y gwaith asesu safle helaeth a gynhaliwyd. Yn wreiddiol fel rhan o'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (2017/18), adolygwyd 50–60 o safleoedd ledled y sir. Ar gyfer yr ymarfer asesu safle, ailaseswyd tua 40 o safleoedd mewn ardal leol benodol oherwydd cysylltiad lleol hirsefydlog y teulu dan sylw. Dim ond tri safle a nodwyd oedd yn addas i ddechrau ond ar ôl gwerthusiad pellach dim ond un safle oedd yn addas.

Derbyniodd y Pwyllgor fod y Grŵp Tasg a Gorffen wedi cyflawni ei rôl yn briodol ond nid oeddent yn gallu derbyn mai'r safle a ddewiswyd oedd yr unig safle addas ar y pryd a gofynnodd i swyddogion gynnal ymchwil pellach i ymchwilio i safle amgen penodol. Atgoffwyd y Pwyllgor mai penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio fyddai cymeradwyo'r safle arfaethedig neu beidio yn y pen draw.

Bob blwyddyn roedd **Cyllidebau'r Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai** yn cael eu cyflwyno i'w craffu cyn gwneud penderfyniad, i ystyried y cynnydd arfaethedig mewn rhent ar gyfer tenantiaid tai'r Cyngor cyn cymeradwyaeth y Cabinet.

Roedd polisi Llywodraeth Cymru yn caniatáu cynnydd yn seiliedig ar gyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) (3.8%) + 0.5%, gan roi cynnydd mwyaf o 4.3% yn 2026/27. Argymhellwyd y cynnydd mwyaf o 4.3% oherwydd costau cynyddol a phwysau ariannol i gynnal safonau tai (Safon Ansawdd Tai Cymru) ac uchelgais parhaus y Cyngor i ddatblygu cartrefi newydd.

Sicrhawyd y Pwyllgor bod lefelau rhent wedi'u profi gan ddefnyddio model "Rhent Byw" Joseph Rowntree a'u cadarnhau eu bod yn fforddiadwy, gyda rhenti yn parhau i fod yn is na'r meincnod o 28% o incwm aelwydydd. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig ac argymhellodd ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo.

Nod yr **Adolygiad o Bremiwm Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi / Eiddo Gwag Hirdymor** oedd cynyddu argaeledd tai fforddiadwy drwy leihau ail gartrefi ac eiddo gwag

Wrth asesu effaith y cynnydd blaenorol i'r premiwm, canfuwyd bod niferoedd ail gartrefi wedi aros yn sefydlog ac roedd eiddo gwag hirdymor safonol yn dangos gostyngiad o ran niferoedd. Parhau i fonitro ond cadw'r premiwm yr un fath oedd yn cael ei argymell.

Fodd bynnag, nodwyd bod Eiddo Gwag Hirdymor am Dros 5 Mlynedd yn broblem sylweddol yn Sir Ddinbych (ymhlith y lefelau uchaf yng Ngogledd Cymru). Argymhellwyd yn yr adroddiad y dylid codi premiwm o 25% ar Eiddo Gwag Hirdymor am Dros 5 Mlynedd bob blwyddyn o 2026 hyd at yr uchafswm o 300%.

Byddai Newidiadau Polisi Ychwanegol yn cynnwys adran 13A newydd o dan y Polisi Rhyddhad yn ôl Disgresiwn gyda chategorïau wedi'u cyflwyno ar gyfer Adnewyddu Cyffredinol ac Adnewyddu Sylweddol. Pwrpas y rhain oedd cefnogi perchnogion newydd i adnewyddu eiddo gwag hirdymor, yn enwedig lle'r oedd gostyngiad eisoes wedi'i ddefnyddio gan berchnogion blaenorol.

Cefnogodd y Pwyllgor yr adolygiad a'r argymhellion ar gyfer y Cyngor Llawn (Gorffennaf 2025) a thynnodd sylw at yr angen i gyfathrebu'r newidiadau polisi i fudd-ddeiliaid y sector eiddo.

Y gobaith oedd y gallai dod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i'r farchnad dai – yn enwedig y sector rhentu - leihau'r effaith ar y Gwasanaeth Digartrefedd. Roedd **Proses Asesu Llety Dros Dro** yr Awdurdod yn egluro sut yr oedd y Cyngor yn asesu ac yn rheoli Llety Brys Dros Dro a Llety Dros Dro ar gyfer aelwydydd digartref.

Yn hanesyddol, roedd Llety Brys Dros Dro yn cael ei gaffael ar sail anghenion drwy westai / gwestai Gwely a Brecwast a'i brynu fesul ystafell, fesul noson. Tra'r oedd Llety Dros Dro yn eiddo hunangynhwysol ar brydles, gan Dai Cymunedol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r sector rhentu preifat.

Roedd yr Awdurdod yn symud i fodel newydd o Lety Brys Dros Dro wedi'i seilio ar ofynion Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015. Yn gyffredinol, roedd eiddo wedi'u cyfyngu i 10 ystafell wely, pob un gyda chyfleusterau en-suite a digon o gyfleusterau coginio i'w rhannu. Roedd 5 eiddo o'r math hynny yn cael eu prydlesu drwy 'The Sanctuary

Trust'. Roedd arbedion sylweddol yn cael eu gwneud oherwydd bod taliadau'n cael eu gwneud ar gyfradd flynyddol.

Byddai trawsnewid y system llety dros dro yn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol, yn gwella ansawdd, yn lleihau dibyniaeth ar westai/gwestai gwely a brecwast, ac yn cyflawni arbedion cost sylweddol. Byddai proses asesu newydd yn safoni disgwyliadau ar gyfer pob darparwr, gydag adolygiadau blynyddol a gofynion cydymffurfio llym e.e. gofynion trwyddedu a chaniatâd cynllunio.

Er bod y **Swyddogaeth Cydymffurfio â Rheolau Cynllunio** yn wasanaeth yn ôl disgresiwn i'r Cyngor, roedd Cydymffurfio â Rheolau Cynllunio o bwysigrwydd strategol ac yn hanfodol i'r system gynllunio - gan sicrhau datblygu cynaliadwy, gwarchod bioamrywiaeth, cyfraniad at nodau hinsawdd ac ecolegol ac ati. Roedd y rôl yn cynnwys ymchwilio i doriadau, cyhoeddi hysbysiadau, ac o bosibl camau cyfreithiol. Mae'r gwaith yn cyflawni gwahanol agweddau ar y Cynllun Corfforaethol, mae llwyddiant yn cyfrannu at Gyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad.

Roedd y Gwasanaeth yn adfer yn dilyn prinder staff difrifol (dim yn 2024) ac roedd wedi recriwtio 2 Swyddog Cydymffurfio â Rheolau Cynllunio. Roedd nifer y Swyddogion Cydymffurfio â Rheolau Cynllunio yn parhau i fod yn isel o'i gymharu ag awdurdodau cyfagos ac roedd mynd i'r afael â'r ôl-groniad o achosion a oedd angen ymchwilio iddynt yn heriol. Ceisiwyd cytundeb i ddiwygiadau i'r Siarter Cydymffurfio â Rheolau Cynllunio a fabwysiadwyd er mwyn rheoli disgwyliadau ynglŷn â sut y gellid ymchwilio i achosion a'u datrys. Codwyd pryderon ynglŷn â phwysau ar adnoddau a'r llwyth gwaith. Gofynnodd y Pwyllgor am archwilio arfarniad o ddewisiadau ar gyfer ehangu'r tîm ymhellach.

Roedd pwysau ar adnoddau yn bryder parhaus ar draws yr Awdurdod. Cafodd **Trefniadau Gorfodi Parcio** eu craffu gan y Pwyllgor yn gynnar yn y flwyddyn. Clywodd y Pwyllgor fod dull yr Awdurdod o ran gorfodi parcio yn anelu at ganfod cydbwysedd rhwng diogelwch ar y ffyrdd a llif traffig yn ogystal â'r effaith ar fusnesau a chymunedau. Roedd cyfyngiadau parcio yn angenrheidiol oherwydd galw uchel a lleoedd cyfyngedig. Fodd bynnag, roedd

topograffeg y sir yn ei gwneud hi'n anodd rhoi sylw digonol i'r holl ardaloedd gyda thîm bach o 5 swyddog gorfodi.

Roedd Gwasanaeth yn cael ei hunan-ariannu, gydag incwm a gynhyrchwyd yn cael ei ail-fuddsoddi yn ôl i'r Gwasanaeth. Yn ystod y flwyddyn, roedd y Gwasanaeth wedi cael ei ailstrwythuro gan gynyddu capasiti staffio - yn galluogi gwell defnydd o swyddogion a lleihau amser teithio, yn enwedig yn ne'r sir - a gyfrannodd at fwy o bresenoldeb ar y stryd a mwy o weithgarwch gorfodi wedi'i dargedu.

Parhaodd y gwasanaeth i symud tuag at ddull wedi'i arwain gan wybodaeth i werthuso **Effeithiolrwydd Gweithgareddau Gorfodi Parcio**, gyda gwaith yn mynd rhagddo i wella casglu a dadansoddi data i ddeall patrymau parcio yn llawn a chefnogi achosion busnes yn y dyfodol.

Roedd archwilio technolegau newydd, yn cynnwys System Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig (ANPR) ac adnoddau a oedd yn cael eu gyrru gan ddata, yn parhau ar y cam dichonoldeb. Roedd gan yr adnoddau hynny'r potensial i gefnogi targedu gorfodi yn well a gwella effeithlonrwydd cyffredinol, gan ymdrechu i fod yn Sir Ddinbych Fwy Ffyniannus.

Roedd y pwysau cyllidebol parhaus wedi gweld yr angen i wneud rhai penderfyniadau anodd iawn – yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau anstatudol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y **Cynnig Arbedion Cyfleusterau Cyhoeddus** cyn ei gyflwyno i'r Cabinet i wneud penderfyniad.

Ni allai'r Cyngor Sir barhau i roi cymhorthdal i'r gwasanaeth mwyach ac felly cynigiodd dri dewis i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned - Trosglwyddo Asedau Cymunedol (Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned i gymryd perchnogaeth), ymgymryd â Chytundebau Lefel Gwasanaeth (lle'r oedd Cyngor Sir Ddinbych yn cadw perchnogaeth gyda'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn cyfrannu'n ariannol) neu gau.

Cododd y Pwyllgor bryderon ynglŷn â'r effaith ar ddefnyddwyr diamddiffyn, anghydraddoldeb mynediad a chost ar draws cymunedau, cadernid y data a ddefnyddiwyd ar gyfer amcanestyniadau incwm a diffyg archwilio datrysiadau amgen. Roedd y Pwyllgor

o'r farn y byddai cau cyfleusterau cyhoeddus yn cael effaith niweidiol ar dwristiaeth yn y sir a bod hyn yn groes i Flaenoriaethau Corfforaethol, yn enwedig Sir Ddinbych Ffyniannus a Sir Ddinbych Iachach, Hapusach a Gofalgar.

Yn gysylltiedig â'r blaenoriaethau allweddol hynny, cyflwynwyd diweddariad pwysig i'r Pwyllgor ar **Ddatblygiad Ysbyty Brenhinol Alexandra** yn y Rhyl. Roedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Sir Ddinbych, gyda chynnydd yn parhau, er gwaethaf cyfyngiadau cyllid cynharach a arweiniodd at ddatblygu cynllun llai gwerth £60 miliwn yn lle'r cynnig gwreiddiol a gyflwynwyd yn 2021.

Roedd y prosiect arfaethedig yn cael ei gyflawni mewn dau gam, gyda Cham 1 yn canolbwyntio ar adeilad clinigol newydd—gan gynnwys Uned Mân Anafiadau ac Anhwylderau, gwelyau ailalluogi, gwasanaethau radioleg a deintyddol estynedig, a chyfleusterau cymunedol—gyda chefnogaeth buddsoddiad arfaethedig o £35.9 miliwn, tra byddai Cam 2 yn mynd i'r afael ag adnewyddu'r adeilad presennol a gwelliannau i'r isadeiledd.

Nod y datblygiad oedd gwella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal integredig lleol, lleihau'r pwysau ar Ysbyty Glan Clwyd, a chefnogi gofal yn nes at adref. Roedd cerrig milltir allweddol yn nodi cwblhau'r gwaith adeiladu a chomisiynu Cam 1 yn llawn erbyn 2027/28, er bod Aelodau wedi codi pryderon am amserlenni, capasiti gwelyau cyfyngedig, a phwysau o ran parcio. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ymrwymo i gadw Craffu'n hysbys o'r diweddaraf wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

Pwyllgor Craffu Partneriaethau





Y Cynghorydd Joan Butterfield **(Cadeirydd)** Y Cynghorydd Peter Scott **(Is–gadeirydd)**

Mae'r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am archwilio effeithiolrwydd gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, naill ai ar y cyd neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus, ac am sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n bodloni anghenion y trigolion.

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, ei raglenni a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor.

Wrth i weithio mewn partneriaeth barhau i ddatblygu i ateb y galw cynyddol am wasanaethau statudol, mae'r Pwyllgor wedi parhau i ganolbwyntio ar archwilio effeithiolrwydd amrywiol bartneriaethau a threfniadau cydweithio wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn i drigolion a chymunedau. Fel rhan o'r gwaith hwn, craffodd, trwy archwilio ei **Adroddiad Blynyddol 2024/25**, waith **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru** wrth hwyluso sefydliadau cyhoeddus fel gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd â grwpiau gwirfoddol, elusennau a sefydliadau eraill, i weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau cymorth ac atal i aelodau mwyaf diamddiffyn ein cymunedau. Nod y gwaith hwn yw gwella iechyd a lles dinasyddion a lleihau'r angen am wasanaethau ymyrraeth mwy costus.

Yn yr un modd, cafodd y Pwyllgor gyfle i drafod gyda chynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, (BIPBC) y cynlluniau gan y Bwrdd Iechyd i sefydlu **Canolfan Iechyd a Lles ar gyfer ardal Dinbych** yn hen swyddfeydd y Cyngor Sir yng Nghaledfryn yn Ninbych. Cafodd gyfle hefyd i roi sylwadau ar gynigion cychwynnol, arloesol yn canolbwyntio ar ddatblygu cyfadeiladau Dolwen a Cysgodfa yn y dref, sydd â'r nod o ddiogelu darpariaeth **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol** yn Ninbych ar gyfer y dyfodol.

Mae darparu cymorth iechyd a lles i gymunedau'r sir yn dibynnu'n fawr ar wirfoddolwyr a sefydliadau gwirfoddol. Gan ei fod yn ymwybodol iawn o'r ddibyniaeth hon, a'r galw cynyddol am gymorth trydydd sector, gwahoddodd y Pwyllgor Brif Swyddog Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i gwrdd â'r Aelodau i drafod **Gweithio gyda'r Trydydd Sector yn Sir Ddinbych**. Roedd hyn yn cynnwys rôl Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych wrth gyfeirio a chynorthwyo sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i wneud cais am ffrydiau cyllid allanol i gefnogi eu darpariaeth o wasanaethau cymorth ac ymyrraeth hanfodol. Ni chaniateir i'r Cyngor ei hun wneud cais uniongyrchol am y mathau hyn o gyllid; fodd bynnag, mae sefydliadau sy'n gallu gwneud cais yn arbed symiau sylweddol o arian i'r awdurdod lleol trwy ddarparu gwasanaethau cymorth gwerthfawr.

Ar yr un pryd â'r Cyngor yn ymdrechu i ateb y cynnydd parhaus mewn galw am wasanaethau gofal cymdeithasol statudol i oedolion a phlant trwy ddyfeisio dulliau arloesol i gefnogi unigolion diamddiffyn, rhaid iddo hefyd addasu darpariaeth gwasanaethau i gydymffurfio â newidiadau deddfwriaethol. Un newid o'r fath yw **Dileu Elw o Ofal ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal**. Er bod yr amcanion sy'n sail i'r newid hwn yn ganmoladwy, mae'n peri risgiau sylweddol i awdurdodau lleol o ran comisiynu lleoliadau addas ar gyfer plant a phobl ifanc diamddiffyn iawn. Ar y sail hon, bydd y Pwyllgor yn parhau i archwilio datblygiadau lleol a rhanbarthol gyda'r nod o ddarparu datrysiadau gofal effeithiol, diogel a chynaliadwy. Ymhlith y cynigion ar sut i ateb y galw cynyddol yn y maes hwn, mae sefydlu cartref grŵp bach a gwella recriwtio a chadw gofalwyr maeth - mae'r ddau ohonynt yn rhan o raglen Drawsnewid y Cyngor. Roedd y Pwyllgor, wrth archwilio canfyddiadau **Archwiliad Arolygiaeth Gofal Cymru o Wasanaethau Maethu'r Cyngor** a'i **Wiriad Gwella o Wasanaethau Plant,** yn falch o dderbyn sicrwydd bod y ddau wasanaeth yn gweithio'n

effeithiol, bod ganddynt weledigaeth glir ar gyfer datblygu pellach, ac yn cael eu cefnogi'n gorfforaethol ac yn wleidyddol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol.

Yn dilyn amhariad a achoswyd gan bandemig COVID-19 i allu rheoleiddwyr i gynnal ymweliadau arolygu rheolaidd, yn enwedig i sefydliadau gofal, mae Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol y Cyngor, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi bod yn destun sawl arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru. Yn ogystal â'r rhai a soniwyd amdanynt eisoes, archwiliodd y Pwyllgor yr adroddiad arolygu ar gartref gofal **Cysgod y Gaer** yng Nghorwen. Roedd yn falch o gasgliadau'r rheoleiddiwr bod gwelliannau wedi'u gwneud mewn lefelau staffio ers yr arolygiad blaenorol, a bod gofal a chymorth, lles, a'r amgylchedd yn y cartref wedi'u graddio'n dda. Bydd adroddiadau pellach y Rheoleiddiwr ar feysydd eraill yn cael eu hystyried yn y flwyddyn i ddod.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y Pwyllgor â'i rôl o archwilio perfformiad Tîm Diogelu'r Cyngor wrth gyflawni ei ddyletswyddau o ran **Diogelu Oedolion yn Sir Ddinbych yn ystod 2024/25**. Canmolwyd y Tîm am eu gwasanaethau rhagorol wrth ymgymryd â rôl hynod heriol ond hanfodol bwysig wrth gadw trigolion diamddiffyn yn ddiogel.

Mae **Prosiect Adfywio 'Ein Rhyl' - Rhaglen Balchder Bro** yn fenter gan Lywodraeth Cymru wedi'i hanelu at sicrhau buddsoddiad o oddeutu £20 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd (2026-2036). Un o amodau allweddol y cyllid oedd sefydlu Bwrdd a gaiff ei arwain gan y gymuned i ddatblygu gweledigaeth 10 mlynedd a chynllun cyflawni 4 blynedd. Er mai'r Cyngor yw'r "corff cyfrifol", nid yw'r Bwrdd ei hun yn cael ei arwain gan y Cyngor.

Er mwyn gallu cael gafael ar gyllid, roedd angen Strategaeth a Chynllun Cyflawni erbyn diwedd mis Tachwedd 2025. Ar ôl ystyried y Strategaeth ddrafft, argymhellodd y Pwyllgor fod y Cabinet yn gofyn i'r Bwrdd ddileu cyfeiriadau at brosiectau penodol ac yn lle hynny creu 'Cronfa Prosiect Strategol' i gefnogi mentrau mawr, hirdymor. Argymhellodd hefyd y dylid sefydlu 'Cronfa Adfywio Cymunedol' ar gyfer prosiectau llai y gellir eu cyflawni yn y blynyddoedd cynnar. Yn ogystal, cynghorodd adolygu trefniadau llywodraethu ac aelodaeth y Bwrdd i sicrhau sgiliau a chynrychiolaeth briodol. Roedd yr argymhellion hyn yn cael eu cymeradwyo'n llawn gan y Cabinet.

Mae craffu ar ddatblygiad economaidd yn parhau i fod yn swyddogaeth allweddol y Pwyllgor, yn enwedig mewn perthynas ag **Uchelgais Gogledd Cymru** a **Chynllun Twf Gogledd Cymru.** Parhaodd y Pwyllgor i dderbyn adroddiadau chwarterol a chynnal sesiwn graffu ffurfiol ar ôl cyhoeddi **Adroddiad Blynyddol 2024/25**. Mae cynlluniau ar waith i sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu at y diben hwn, ond tan hynny, bydd y Pwyllgor yn parhau â'r rôl hon.

Yn ogystal â bod yn bwyllgor dynodedig y Cyngor ar gyfer craffu ar Gynllun Twf Gogledd Cymru, y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yw'r pwyllgor dynodedig ar gyfer craffu ar drosedd ac anhrefn yn unol â gofynion Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006. Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â throsedd ac anhrefn, adolygodd y **Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2024/25** a thrafod cynnydd, heriau a blaenoriaethau gyda phartneriaid, yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru.

Mae diogelwch cymunedol yn ymwneud â lleihau troseddu, a'r ofn o drosedd o fewn cymunedau. Mewn rhai cymunedau mae hyn yn gysylltiedig ag achosion o droseddu cyfundrefnol difrifol. Un ardal o'r fath, a ddewiswyd gan y Swyddfa Gartref i elwa o raglen waith wedi'i thargedu i geisio lleihau lefelau troseddu, gwella safonau byw a chanlyniadau bywyd, oedd Gorllewin y Rhyl. Nod y fenter **Adnewyddu'r Rhyl - Hel, Dal, Cryfhau**, a oedd ar waith rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2026, oedd lleihau troseddu cyfundrefnol difrifol a chryfhau gwytnwch cymunedol. Roedd y rhaglen, a oedd yn cael ei hwyluso ond nid ei darparu gan y Cyngor, wedi'i rhannu'n dri cham gwahanol: **Hel**, a oedd yn dileu bygythiadau difrifol uniongyrchol drwy gamau gorfodi wedi'u targedu; **Dal**, a oedd yn cyfnerthu ac yn sefydlogi'r ardal; a **Chryfhau**, a oedd yn darparu dull system gyfan i fynd i'r afael â sbardunau troseddu ac atal niwed rhag dychwelyd. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall a oedd camau Hel a Dal y rhaglen wedi galluogi'r holl sefydliadau partner yn gysylltiedig â'r gwaith hwn i ddatblygu rhwydweithiau cryf ar draws gwasanaethau a sefydliadau a fyddai'n sicrhau bod yr enillion a wnaed yn gynaliadwy yn y tymor hir, trwy wella gwytnwch a grym cymunedol. Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod gweithio mewn partneriaeth wedi gwella cyfathrebu, ymddiriedaeth a chydweithio rhwng sefydliadau, ac yn

annog pawb dan sylw i barhau i gydweithio ar ôl i'r rhaglen ddod i ben, er mwyn gwireddu buddion hirdymor cynaliadwy i'r gymuned leol.

Ers mis Ebrill 2022, Bryson Recycling Limited sydd wedi bod â'r contract i reoli gweithrediad **Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref** y Cyngor. Wrth ddyfarnu'r contract penodol hwn, gofynnodd y Cabinet i'r Pwyllgor Craffu fonitro effeithiolrwydd y contract wrth gyflawni'r arbedion darpariaeth gwasanaeth disgwyliedig yn ogystal â chynhyrchu'r lefelau incwm a oedd yn cael eu rhagweld. Gan fod y contract wedi bod ar waith ers tair blynedd bellach, roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn amser cynnal gwerthusiad o effeithiolrwydd y contract. Er ei fod yn cydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflawni arbedion cost a gwella lefelau ailgylchu yn y canolfannau hyn, roedd y Pwyllgor yn awyddus i wneud mwy o waith marchnata gyda thrigolion i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael yng nghanolfannau ailgylchu gwastraff y cartref y sir, ynghyd â hawl trigolion o ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'w defnyddio os oedd eu lleoliad daearyddol yn agosach at eu cartrefi na'r rhai wedi'u lleoli yn sir Conwy ei hun, a hawl trigolion Sir Ddinbych i ddefnyddio canolfannau ailgylchu yng Nghonwy hefyd.

Roedd yr Aelodau a oedd wedi gweld rhaglen ddogfen ar dir halogedig yn y DU yn awyddus i ddeall sut yr oedd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â **Thir Halogedig**. Archwiliodd y Pwyllgor ddyletswyddau'r Cyngor a'i brosesau ar gyfer ymgymryd â'r gwaith hwn. Er ei fod yn cydnabod ymdrechion y Cyngor i ymgymryd â'i gyfrifoldebau o fewn yr adnoddau cyfyngedig ar gael iddo, a'i waith gyda sefydliadau partner, wrth nodi, blaenoriaethu ac adfer tir halogedig yn y sir, argymhellodd hefyd y dylid adolygu'r strategaeth bresennol i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion presennol. Unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, bydd y strategaeth ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor i'w chraffu cyn ei chymeradwyo.

Mae cyfyngiadau ar y gyllideb yn parhau i effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor, yn enwedig gwasanaethau yn ôl disgresiwn. Cymeradwywyd **Asesiad o Anghenion Lleol a Strategaeth Ddrafft Toiledau Lleol** newydd gan y Cabinet ond wedi hynny fe'u galwyd i mewn i'w craffu arnynt. Ystyriodd y Pwyllgor y penderfyniad hwn yn gynnar ym mlwyddyn y

Cyngor 2025/26. Adroddir ar ganlyniadau adolygiad y Pwyllgor o'r penderfyniad mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn o dan yr adran ‘Galw penderfyniadau’r Cabinet i mewn’.

Yn ogystal â chael gwasanaeth Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y cyd â Chonwy, mae'r ddwy sir yn gweithredu **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** ar y cyd. Fel yr adroddwyd yn adroddiad blynyddol y llynedd ar ôl derbyn adroddiad beirniadol ar y gwasanaeth hwn ar y cyd ym mis Mai 2024, lluniwyd cynllun gweithredu i fynd i’r afael ag argymhellion Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi. Ar ôl cynnal cyfarfod anffurfiol llwyddiannus ar y cyd rhwng Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Phwyllgor Craffu Partneriaethau Sir Ddinbych yn gynnar yn 2025 i archwilio'r cynnydd a oedd wedi’i wneud erbyn hynny o ran sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol a nodwyd gan y Rheoleiddiwr, cytunodd aelodau'r ddau awdurdod y dylai mabwysiadu dull ar y cyd o fonitro cyflawni'r cynllun gweithredu barhau. Cynhaliwyd ail gyfarfod ar y cyd o'r pwyllgorau ym mis Mawrth 2026. Roedd yn hynod braf i'r ddau awdurdod allu cydnabod y cynnydd sylweddol a wnaed gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'i bartneriaid wrth barhau â'i daith wella ac wrth adeiladu ar a chynnal y gwelliannau a wnaed hyd yma. Mae'r ddau bwyllgor wedi cytuno i gyfarfod eto yn 2027 i adolygu'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella ac i sicrhau bod yr holl newidiadau wedi'u hymgorffori'n llawn yn yr arfer dyddiol ac yn parhau i fod yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Pwyllgor Craffu Perfformiad



Y Cynghorydd Terry Mendies

(Cadeirydd)



Y Cynghorydd Gareth Sandilands

(Is-gadeirydd)

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Perfformiad, ei raglenni a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor.

Mae gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon i drigolion a'i gefnogi i gyflawni ei Gynllun Corfforaethol. Yn ystod 2025/26, parhaodd â'i waith yn canolbwyntio ar berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei wasanaethau dydd i ddydd, ei gynnydd hyd yma o ran gwireddu ei Gynllun Corfforaethol a'i uchelgais o fod yn Gyngor a reolir yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad.

Mae sicrhau a chynnal darpariaeth gwasanaethau o ansawdd uchel tra bod y galw a chostau'n cynyddu, ac adnoddau ariannol yn lleihau, wedi bod yn her gyson trwy gydol tymor y Cyngor hwn. Fel rhan o'i ddyletswyddau, mae'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn archwilio gallu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a gwireddu ei uchelgeisiau yn rheolaidd, tra hefyd yn rheoli'r holl risgiau a nodwyd a allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau hynny. Wrth ymgymryd â'r rôl hon, mae'r Pwyllgor yn adolygu'r **Gofrestr Risgiau Gorfforaethol** i sicrhau bod mesurau priodol ar waith i reoli'r holl risgiau hysbys i ddarparu gwasanaethau yn effeithiol.

Yn ogystal ag archwilio **Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor** o'i berfformiad wrth ddarparu gwasanaethau ac uchelgeisiau, mae'r Pwyllgor yn monitro cynnydd yn rheolaidd o ran cyflawni'r **Cynllun Corfforaethol**, gan nodi unrhyw lithriad cyn gynted â phosibl er mwyn argymell atebion ymarferol i sicrhau cyflawni amcanion y Cynllun o fewn yr amserlen ddynodedig.

Yn ystod y flwyddyn, fel rhan o'i waith monitro cyllideb, archwiliodd **Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27** a **Chynigion Pennu Cyllideb y Cyngor** yn deillio o'r setliad hwnnw, ynghyd â'u heffaith debygol ar gyflawni'r **Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig**. Wrth wneud hynny, cydnabu unwaith eto y pwysau a wynebwyd gan y Cyngor, yn debyg i bob awdurdod lleol, wrth geisio gosod cyllideb gytbwys yn erbyn cefndir o alw cynyddol am wasanaethau statudol a chostau cynyddol. Ar y sail hon, gofynnodd i'r Aelod Cabinet Cyllid ysgrifennu at Ysgrifennydd Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyllid llywodraeth leol, gan bwysleisio'r gwahaniaeth sy'n bodoli rhwng lefelau cyllid sy'n cael eu dyfarnu a'r twf parhaus yn y galw am wasanaethau y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu darparu'n gyfreithiol, megis addysg a gofal cymdeithasol.

Mae ceisio cydbwyso'r galw cynyddol am wasanaethau, yn enwedig gofal cymdeithasol dwys ac arbenigol i blant ac oedolion, yn hynod heriol ac yn gofyn am arferion darparu gwasanaethau arloesol. Er bod rhai gwasanaethau yn cael eu darparu gan staff Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn unig, mae eraill yn cael eu darparu mewn partneriaeth â sefydliadau neu wedi'u comisiynu gan ddarparwyr allanol. Ar ôl archwilio **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol**, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol ac adnoddau sy'n wynebu'r Cyngor wrth iddo ymdrechu i ateb y galw cynyddol yn y maes hwn. Canmolodd y Gwasanaeth am yr atebion arloesol a ddatblygwyd i fodloni'r gofynion hyn ac am wella canlyniadau i unigolion trwy ddiwallu eu hanghenion, cynnal eu hannibyniaeth, a'u cadw'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosibl.

Yn ystod y flwyddyn, gyda chefnogaeth yr aelodau lleyg cyfetholedig ar gyfer addysg, parhaodd y Pwyllgor i fonitro perfformiad addysgol a materion cysylltiedig. Mynychodd gynrychiolwyr staff ysgolion o'r sectorau cynradd ac uwchradd gyfarfod i drafod **Hyrwyddo**

Presenoldeb ac Ymgysylltiad yn yr Ysgol. Fe wnaethant friffio'r aelodau am fentrau ac arferion a gyflwynwyd i gefnogi disgyblion diamddiffyn, ac ail-ymgysylltu â nhw yn eu haddysg, a fydd yn ei dro yn gwella eu rhagolygon a'u canlyniadau bywyd.

Yn yr un modd, parhaodd y Pwyllgor i fonitro'r cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Addysg ac ysgolion y sir wrth fodloni'r gofynion statudol sy'n ymwneud â darpariaeth ar gyfer **Anghenion Dysgu Ychwanegol** mewn ysgolion yn dilyn gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Roedd yn rhaid gweithredu'r darpariaethau yn llawn erbyn Awst 2025. Parhaodd y Pwyllgor i fonitro'r cynnydd a wnaed gan **Ysgol Crist y Gair** wrth iddi ymdrechu i symud allan o fesurau arbennig, drwy drafod y gwelliannau a gyflawnwyd hyd yma, ynghyd â'r heriau parhaus gyda chynrychiolwyr ysgolion, swyddogion gwella ysgolion a staff y Gwasanaeth Addysg. Bydd Aelodau yn parhau i fonitro cynnydd yn y meysydd hyn yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod presenoldeb staff ysgolion mewn cyfarfodydd yn fuddiol iawn, gan ei fod yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i'r Aelodau ar heriau dyddiol a gwell dealltwriaeth o'r atebion sy'n cael eu datblygu i wella canlyniadau i ddysgwyr a staff.

Mae newid hinsawdd yn effeithio ar fywydau pawb ac mae angen i wasanaethau addasu i risgiau ac anghenion newidiol. Yn dilyn adolygiad 2024 o Strategaeth Hinsawdd ac Ecolegol y Cyngor, a arweiniodd at ei hailenwi'n **Strategaeth Hinsawdd a Natur**, ymrwymodd y Pwyllgor i fonitro'r cynnydd gyda'i chyflawni yn flynyddol. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y byddai cwmpas ehangach y Strategaeth, gan gynnwys dull ehangach o leihau carbon, dal a storio carbon ac adfer natur, nid yn unig yn mynd i'r afael â risgiau hinsawdd ond hefyd yn darparu manteision cymdeithasol hirdymor ehangach.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, parhaodd y Pwyllgor i fonitro perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell wrth ddarparu gwasanaethau yn erbyn **Safonau a Pherfformiad Gwasanaethau Llyfrgell** Llywodraeth Cymru. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o awyddus i archwilio'r effaith a gafodd cwtogi oriau agor llyfrgelloedd yn ystod 2024/25 ar ansawdd y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu gan lyfrgelloedd i'r cymunedau yr oeddent yn eu gwasanaethu. Er na ddaeth y newid hwn i oriau i rym tan fis Mehefin 2026, rhan o'r ffordd trwy'r flwyddyn adrodd, roedd y Pwyllgor yn falch iawn o glywed bod y Gwasanaeth, er gwaethaf y pwysau

ychwanegol, wedi parhau i berfformio'n dda iawn gan gyflawni'r mwyafrif o brif dargedau cenedlaethol. Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, roedd y llyfrgelloedd yn ymddangos mor brysur ag erioed, ac roedd y Gwasanaeth yn dal i allu darparu gwasanaethau a digwyddiadau ychwanegol a gyfrannodd at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad perfformiad blwyddyn lawn o dan y model cwtogi oriau. Cymeradwyodd y Pwyllgor hefyd gais gan y **Tasglu Llyfrgelloedd**, a sefydlwyd i asesu effaith cwtogi oriau, i barhau â'i waith am ddeuddeg mis arall. Bydd yr estyniad hwn yn rhoi digon o amser i'r tasglu archwilio datrysiadau amgen a allai gynhyrchu incwm i ailgyflwyno'r oriau agor gwreiddiol ac o bosibl ehangu gwasanaethau.

Mewn ymateb i gwynion gan breswylwyr mewn perthynas ag oedi wrth brosesu ceisiadau cynllunio ar ôl gweithredu system gyfrifiadurol newydd i gofrestru a phrosesu ceisiadau, craffodd y Pwyllgor ar **Gaffael ac Effeithiolrwydd System TG Newydd ar gyfer Cynllunio**. Fel rhan o'r gwaith hwn, archwiliodd y prosesau a ddilynwyd wrth gaffael y system newydd, ynghyd â'r effaith ar staff a budd-ddeiliaid eraill oherwydd y problemau gyda'i gweithredu. Nodwyd gwendidau mewn rheoli prosiectau, gan gyfrannu at oedi ac ôl-groniad o geisiadau. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro perfformiad y system nes ei fod yn fodlon ei bod yn gweithredu yn ôl y disgwyl. O ganlyniad i'r gwersi a ddysgwyd o gaffael y system TGCh hon, argymhellodd y Pwyllgor y dylid cryfhau **Trefniadau Rheoli Prosiectau Corfforaethol y Cyngor ar gyfer Caffael a Rheoli Systemau TG Critigol.**

Parhaodd y gwaith monitro cyllideb a thrawsnewid busnes a ddechreuwyd yn 2024/25 yn ystod 2025/26 a bydd yn parhau am gyfnod amhenodol. Un o'r mesurau a weithredwyd mewn ymgais i gynhyrchu mwy o incwm i dalu costau cynnal a chadw a rhedeg meysydd parcio'r Cyngor oedd cynyddu ffioedd parcio ac ymestyn yr oriau y byddai ffioedd yn daladwy am barcio. Fodd bynnag, fel yr adroddwyd yn adroddiad y llynedd, nid oedd y newidiadau a wnaed yn cynhyrchu'r lefelau incwm a ragwelwyd. Mewn ymgais i geisio mynd i'r afael â'r diffyg, lluniwyd **Strwythur Prisiau Meysydd Parcio Arfaethedig** amgen. Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ar y strwythur newydd hwn, a oedd yn anelu at osod prisiau yn seiliedig ar y galw gwirioneddol am ofodau parcio mewn meysydd parcio unigol yn hytrach

na chodi tâl cyffredinol ar draws yr holl feysydd parcio. Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r strwythur prisiau meysydd parcio newydd arfaethedig ond gofynnwyd i bob cynghorydd sir ymgynghori ar y cynigion cyn iddynt gael eu cyflwyno er mwyn eu galluogi i roi adborth ar effaith bosibl y prisiau ar eu hardal leol.

Wrth i'r Cyngor geisio lleihau costau darparu gwasanaethau heb gyfaddawdu ar ansawdd, mae wedi cychwyn rhaglen waith i drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Mae Pwyllgorau Craffu wedi cael y dasg o adolygu cynigion mawr y Rhaglen Drawsnewid. Soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn y bydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn canolbwyntio ar brosiectau o fewn y maes "Dylanwadu ar Alw a Digidol". Gyda chynlluniau i uwchraddio'r system cyswllt cwsmeriaid, nod y Cyngor yw cwrdd â'r galw cynyddol am ryngweithio digidol tra'n sicrhau hygyrchedd i'r rhai sy'n ffafrio dulliau nad ydynt yn ddigidol. Archwiliodd y Pwyllgor gynigion ar gyfer platfform digidol newydd, a fydd yn cynnwys system rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid gwell ac adnoddau cyfathrebu amrywiol, yn rhan o'r **Prosiect Cyswllt Cwsmeriaid**, i sicrhau y bydd yn diwallu anghenion pob defnyddiwr.

Ers sawl blwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi monitro perfformiad Cefndy, gwasanaeth a menter unigryw sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth a gyrfa i rai o drigolion mwyaf diamddiffyn y sir. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf codwyd pryderon ynglŷn â hyfywedd hirdymor y Gwasanaeth. Yn wyneb gostyngiad mewn ffigyrau gwerthiant, peiriannau'n heneiddio a chostau cynhyrchu cynyddol, archwiliodd y Pwyllgor adroddiad ar **Ddyfodol Cefndy**. Er ei fod yn cydnabod bod y Gwasanaeth yn wynebu pwysau cost difrifol, roedd y Pwyllgor yn teimlo y dylid gwneud gwaith pellach cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad ar ddyfodol y Gwasanaeth. Argymhellodd y Pwyllgor i'r Cabinet y dylai ymrwymo i gadw Cefndy ar agor am gyfnod digonol o amser er mwyn gallu archwilio'r holl ddewisiadau amgen yn llawn ac yn annibynnol ac y dylid cynnal dadansoddiad o gostau a manteision o safbwynt ariannol a chymdeithasol ar effaith cau'r Gwasanaeth. Er gwaethaf yr argymhellion hyn, penderfynodd y Cabinet mai cau oedd yr unig ddewis hyfyw. Galwyd y penderfyniad hwn i mewn i'w adolygu ar y sail nad oedd dewisiadau amgen rhesymol wedi'u hystyried yn llawn. Mae

mwy o wybodaeth am gasgliadau'r broses alw i mewn i'w gweld mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn yn yr adran 'Galw penderfyniadau'r Cabinet i mewn'.

Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Conwy a Sir Ddinbych (y Cyd-bwyllgor) gan y ddau Awdurdod yn ystod tymor y Cynghorau blaenorol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol o graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r Pwyllgor hwn yn cynnwys 16 o aelodau, 8 yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac 8 yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych. Mae cynrychiolaeth pob Cyngor ar y Cyd-bwyllgor yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol eu Cyngor. Mae cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor yn nodi y bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn newid bob dwy flynedd rhwng aelodau etholedig Cynghorau Sir Ddinbych a Sir Conwy bob yn ail. Yn dibynnu ar dro pa Gyngor yw hi i Gadeirio'r Cyd-bwyllgor, caiff yr Is-Gadeirydd ei benodi o blith cynrychiolwyr y Cyngor arall ar y Pwyllgor. Yn ystod 2025/26, dychwelodd y cyfrifoldeb am gadeirio'r Cyd-bwyllgor ar gyfer blynyddoedd y Cyngor 2025/26 a 2026/27 i Sir Ddinbych. Penodwyd y Cynghorydd Gareth Sandilands yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor, gyda'r Cynghorydd Cheryl Carlisle o Gonwy yn cael ei hethol fel Is-gadeirydd.

Cyfarfu'r Cyd-bwyllgor dair gwaith yn ystod 2025/26. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, roedd cyfle i aelodau drafod gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, yn ogystal â chynrychiolwyr o Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Chefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy am eu **hymrwymiad a'u cyfraniad at waith y BGC, yn ogystal â'r manteision iddynt fel sefydliadau o gael eu gwahodd i gymryd rhan ar y Bwrdd**.

Cyfarfu Aelodau hefyd â chynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar ddatblygu'r **Siarter Teithio Iach** a sut mae amcanion y Siarter yn cyd-fynd ag amcanion y BGC a'i sefydliadau partner. Mae'r Siarter yn hyrwyddo teithio cynaliadwy i wella iechyd cymunedol a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Mae wedi'i chynllunio i annog cydweithio ar draws sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, cefnogi newidiadau ystyrlon mewn ymddygiad teithio, a gweithredu fel catalydd ar gyfer arloesedd a dysgu a rennir. Mae ei nodau hefyd yn cefnogi ymrwymiadau sero net cenedlaethol. Oherwydd bod cludiant, iechyd

y cyhoedd a gwytnwch hinsawdd wedi'u cysylltu'n agos â'i gilydd, mae'r Siarter yn cael ei hystyried yn sbardun pwysig ar gyfer trawsnewid darparu gwasanaethau rhanbarthol.

Mae'n bwysig nodi bod pwerau craffu'r Cydbwyllgor ond yn ymestyn at sut mae sefydliadau partner yn cyfrannu at waith y BGC. Ni all y Cyd-bwyllgor graffu ar bolisïau ehangach sefydliad na'i berfformiad y tu allan i'w rôl gyda BGC. Fodd bynnag, mae gan y Cyd-bwyllgor ddyletswyddau penodol y mae'n rhaid iddo eu cyflawni mewn perthynas â'r BGC. Eleni, adolygodd gynnydd y BGC wrth gyflawni ei Gynllun Lles 2023–2028 trwy archwilio **Adroddiad Blynyddol y BGC ar gyfer 2024/25.** Ar ôl ystyried **Cofrestr Risg y BGC**, ei drefniadau rheoli risg, ac **Adroddiad Diweddaru ar Gynnydd y Cynllun Lles (Ebrill–Medi 2025)**, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y BGC yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ei Gynllun Lles 2023-28, yn unol â'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Tua diwedd y flwyddyn, rhoddodd y Cyd-bwyllgor adborth hefyd ar **Adroddiad Blynyddol Drafft Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2025/26** cyn iddo gael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd y Cyd-bwyllgor yn ymgynghori ynghylch yr Asesiad Lles drafft newydd, ymhlith materion eraill. Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r BGC ymgynghori â'r Cyd-bwyllgor wrth baratoi ei Asesiad Lles.

Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych



Y Cynghorydd Gareth Sandilands

(Cadeirydd)



Y Cynghorydd Cheryl Carlisle

(Is–gadeirydd)

Aelodaeth

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

- Y Cynghorydd Cheryl Carlisle (Is–gadeirydd)
- Y Cynghorydd David Gerard Carr
- Y Cynghorydd Gwennol Ellis
- Y Cynghorydd Bernice McLoughlin
- Y Cynghorydd Emily Owen
- Y Cynghorydd Austin Roberts
- Y Cynghorydd John Roberts
- Y Cynghorydd Geoff Stewart

Cyngor Sir Ddinbych

- Y Cynghorydd Joan Butterfield
- Y Cynghorydd Kelly Clewett
- Y Cynghorydd Pauline Edwards
- Y Cynghorydd Alan Hughes
- Y Cynghorydd Paul Keddie
- Y Cynghorydd Terry Mendies
- Y Cynghorydd Will Price
- Y Cynghorydd Y Cynghorydd Gareth Sandilands (Cadeirydd)

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at wybodaeth am y Cyd-bwyllgor, ei raglenni a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor

Ceisiadau Craffu gan Drigolion

Ers nifer o flynyddoedd, mae Pwyllgorau Craffu Sir Ddinbych wedi gweithredu dull sefydledig sy'n galluogi trigolion i dynnu sylw'r Pwyllgor Craffu at faterion sy'n peri pryder. Caiff hyn ei hwyluso drwy lenwi Ffurflen Gais Craffu, sydd ar gael ar wefan y Cyngor neu gan y Cydlynwyr Craffu. Bydd ffurflenni sydd wedi'u llenwi yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu, yn yr un modd â cheisiadau a dderbynnir gan Gynghorwyr, swyddogion neu sefydliadau eraill, i'w hystyried ac i benderfynu a yw'r pwnc yn addas i'w archwilio gan un o'r Pwyllgorau Craffu, neu a fyddai'n fwy buddiol pe bai'r mater yn cael ei ystyried gan fforwm arall.

Sut gall trigolion gymryd rhan yn y broses Graffu?

Hoffech chi i'r Pwyllgorau Craffu edrych ar fater penodol?

Gallwch godi mater i'w ystyried gan un o Bwyllgorau Craffu Cyngor Sir Ddinbych drwy lenwi'r Ffurflen Gais Craffu (drosodd) neu drwy lawrlwytho'r ffurflen o wefan y Cyngor a'i chyflwyno dros e-bost. Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y tri Phwyllgor Craffu'n aelodau o'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu. Mae'r Grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i benderfynu sut i ddyrannu gwaith y Pwyllgorau Craffu, a byddant yn ystyried a ddylai unrhyw fater gael ei ystyried yn fanwl gan un o'r Pwyllgorau, neu a ddylid gweithredu mewn ffordd arall. Gall hyn amrywio o atgyfeirio mater i'r gwasanaeth sy'n gyfrifol, i graffu'n llawn ar y mater gan un o'r Pwyllgorau Craffu, neu hyd yn oed sefydlu 'Grŵp Tasg a Gorffen' arbenigol i archwilio ac adrodd ar fater penodol.

Hoffech chi fynd i un o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu?

Mae cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu Cyngor Sir Ddinbych ar agor i'r cyhoedd fel arfer, ac anogir trigolion Sir Ddinbych a'r cyhoedd i'w mynychu neu wylio'r gweddarllediad ar wefan y Cyngor. Mae rhestr o gyfarfodydd Pwyllgorau Craffu'r dyfodol a'r materion i'w trafod ar gael ar y dudalen 'Craffu' ar wefan y Cyngor.

Os hoffech chi gymryd rhan yn y drafodaeth am fater penodol, bydd angen caniatâd Cadeirydd y Pwyllgor arnoch chi. Gallwch drefnu hyn drwy gysylltu ag un o'r Cydlynwyr Craffu, y mae eu manylion cyswllt i'w gweld drosodd.

O bryd i'w gilydd, bydd rhai eitemau sy'n cael eu trafod gan Bwyllgor yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol na ellir ei thrafod yn y fforwm cyhoeddus arferol. Bydd unrhyw eitemau o'r fath (y cyfeirir atynt fel 'Rhan Dau (II)') yn cael eu nodi'n glir pan fydd papurau'r cyfarfod yn cael eu cyhoeddi, a bydd Cadeirydd y Pwyllgor sy'n trafod eitem 'Rhan II' yn egluro y dylai'r cyfarfod barhau heb bresenoldeb y wasg a'r cyhoedd er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

Hoffech chi siarad mewn Pwyllgor ar fater sy'n cael ei drafod?

Mae croeso mawr i aelodau'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy gyswllt fideo, ond bydd rhaid gofyn am ganiatâd y Cadeirydd os ydynt am siarad neu wneud sylwadau mewn cyfarfod Pwyllgor. Os hoffech chi gyflwyno tystiolaeth gerbron Pwyllgor, neu annerch aelodau ar sail eich profiad mewn perthynas â phwnc dan sylw, cysylltwch ag un o'r Cydlynwyr Craffu ymlaen llaw er mwyn trefnu hyn a dosbarthu unrhyw waith papur i aelodau'r Pwyllgor.

Weithiau, efallai y bydd Pwyllgorau Craffu yn dymuno 'cyfethol' unigolyn sydd â phrofiad neu arbenigedd penodol i ddod yn aelod dros dro o'r Pwyllgor neu ofyn iddynt gyfrannu at ymchwiliad fel tyst arbenigol.

Cael y wybodaeth ddiweddaraf am argymhellion Pwyllgorau Craffu Sir Ddinbych

Mae'n bosib i chi gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n cael ei drafod yng nghyfarfod pob Pwyllgor Craffu, yn ogystal ag unrhyw un o gyfarfodydd cyhoeddus eraill y Cyngor, drwy fynd i'r dudalen 'cyfarfodydd' ar wefan y Cyngor. Mae 'rhaglen waith' ddiweddaraf pob un o'r Pwyllgorau Craffu ar gael, ynghyd â'r papurau perthnasol ar gyfer pob cyfarfod, a bydd y rhaglen sydd wedi'i chadarnhau ar gyfer pob cyfarfod ar gael rhwng 5 a 7 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod fel arfer.

Mae cofnodion y cyfarfodydd craffu blaenorol a chofnod o'r argymhellion a wnaed hefyd ar gael ar wefan y Cyngor, yn ogystal â'r recordiadau o gyfarfodydd craffu diweddar.

Mae rhagor o gyngor neu wybodaeth ar gael drwy gysylltu â'r Cydlynwyr Craffu, Karen Evans ar karen.a.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712575) neu Rhian Evans ar

rhian.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712554), neu drwy anfon neges e-bost i'r cyfeiriad e-bost cyffredinol canlynol: democrataidd@sirddinbych.gov.uk.

Ffurflen Gais Craffu

Oes yna unrhyw fater yr hoffech chi i'r Pwyllgorau Craffu gael golwg arno?

Rhowch ddisgrifiad byr o'r pwnc yr hoffech chi i un o'r Pwyllgorau Craffu ei ystyried, gan nodi pam rydych yn credu y dylai gael ei ystyried.

Hoffech chi fynd i un o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu? HOFFWN / NA HOFFWN

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech chi roi'r manylion isod er mwyn i ni allu ymateb i'ch cais.

Eich enw:

Cyfeiriad:

Cod Post:

E-bost:

Rhif ffôn:

Dychwelwch y ffurflen hon i:

Cydlynwyr Craffu
Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl
Gwasanaethau Democrataidd
Blwch Post 62
Rhuthun
LL15 9AZ
neu anfonwch y ffurflen dros e-bost i democrataidd@sirddinbych.gov.uk